CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
16 Ionawr 2018, Gosen, Llangwyllog
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D Pritchard, W Vaughan, A Williams, W Williams, A Wyn, D ap Rhobert, A C Jones, Cyng D Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Morgan, D Roberts	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cyng W Vaughan (am bod y Cadeirydd wedi dweud y byddai'n hwyr)
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 07.12.17. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng W Williams yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru i wneud a symud y plac o Eglwys Llanddyfnan i'r gofeb
4.2	**Damwain sgwar Talwrn** - Dywedodd y Clerc bod y Cyngor Sir wedi symud yr arwyddion ac ymlaen ac na allant wneud unrhyw beth arall.
4.3	**Halfway, Talwrn (ildio)** - mewn llaw
4.4	**Mynwent Llanddyfnan (perchnogaeth)** - Dywedodd y Clerc bod y Cyngor Sir heb clywed gan yr Eglwys yng Nghymru
4.5	**Llwybr Cyhoeddus Bodffordd - Llyn Frogwy** - Disgwyl am canlyniad yr ymgynghoriad (Mehefin - Medi 2017) barn ar rheolau adnoddau naturiol.
4.6	**Lloches Bws** - Mae'r Clerc wedi trefnu cael prisiau
4.7	**Tyfiant o gwmpas arwydd y siop** - bydd y Gang Cymunedol (Cyngor Sir) yn gwneud y gwaith
4.8	**Canolfannau Hamdden -** darllenwyd ebost gan y Cyngor Sir gyda manylion ynghlwm sydd yn ymateb i'r pryderon ac yn profi cynnydd a bod y sefyllfa'n eithaf cadarnhaol.
4.9	**Prisiau torri gwair** - Mae'r Clerc wedi derbyn prisiau torri gwair am 2018 - Môn Grass cutting Services £1140 a Gareth Hughes £700. Cytunwyd i derbyn pris Gareth Hughes - Cyng D ap Rhobert yn cynnig a Cyng D Pritchard yn eilio.
4.10	**Giat mochyn -** Darllenwyd ebost gan y Cyngor Sir yn dweud Mae'n ymddangos nad oes angen am giât mochyn yma gan nad oes angen amaethyddol iddi ddim mwy.
4.11	**Dwr ar y ffordd wrth ymyl Tan y Felin** - Bydd Gang Cymunedol y Cyngor Sir yn cael golwg ar y safle.
	Llofnod…….Cadeirydd 20.02.18

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	23EL154/E cais llawn ar gyfer gosod 109 meder o cebl dan ddaear 11kv yn Nant Newydd, Brynteg - dim sylwadau
5.2	23EL347/E Rhybudd Eithriad Trydan ar gyfer gosod 56 meder o cebl dan ddaear 11kv yn Pen y Garreg, Llanddyfnan - dim sylwadau
	Hamdden
5.3	Canolfannau Hamdden - gweler 4.8
	Priffyrdd
5.4	Giat mochyn - gweler 4.10
5.5	Lôn Capel, Talwrn - mae'r gwaith wedi cael ei wneud
	Swyddfa Rhaglen Ynys Ynni
5.6	Ymgynghoriad Wylfa Newydd - cytunwyd i rhoi ar yr agenda nesaf
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Unllais Cymru - cyfarfod nesaf 18.01.18. Bydd Cyng A Williams yn mynychu'r cyfarfod
6.2	Medrwn Môn - cyfarfod blynyddol 25.01.18 - gwybodaeth yn unig
6.3	Unllais Cymru - Garddwestau Palas Buckingham 2018 - Nid yw y Cadeirydd ar gael
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu
7.1	Gwaith trin hysbysffwrdd sgwarTalwrn £40.00
7.2	Paent (railings y gofeb) £26.70
7.3	Archwiliwr mewnol £75.00
7.4	Swyddfa Archwilio Cymru £186.30
7.5	Atebion Cyfrifaduron Môn £270.00
7.6	Costau y Clerc £155.31
7.7	Adolygu MANDAD y banc - Cytunwyd i dynnu enw cyng gynghorydd C McGregor
7.8	Precept 2018/19 - Cytunwyd i beidio newid y precept
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Dim
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Cwynion am cyflwr Lôn Bodffordd - Lôn Llanerchymedd
9.2	Tregaian - Capel Coch - twll yn y lôn
9.3	Parcio wrth ymyl Ysgol Talwrn
9.4	Problemau gyda BT Broadband
9.5	Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn
9.6	Ffoes wrth ymyl yr Eglwys, Talwrn
	Llofnod…….Cadeirydd 20.02.18